ROWLAND, NATHANIEL (1749 - 1831), clerigwr Methodistaidd

Enw: Nathaniel Rowland
Dyddiad geni: 1749
Dyddiad marw: 1831
Priod: Margaret Rowland (née Davies)
Rhiant: Elinor Rowland (née Davies)
Rhiant: Daniel Rowland
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd ym mhersondy Llangeitho, mab Daniel Rowland. Addysgwyd ef yn Christ Church, Rhydychen; graddiodd yn B.A., 1771, ac M.A., 1774. Urddwyd yn ddiacon yn Rhydychen, 26 Mai 1771, ac yn offeiriad yn Llundain 21 Medi 1773. Bu'n gurad Stock (Essex) o 1771 hyd ei briodas yn 1776 a Margaret, merch Howel Davies, ac aeth i fyw i'r Parcau, Henllan Amgoed, ar ffiniau Caerfyrddin a Phenfro.

Methodist oedd, fel ei dad, ac ymddengys iddo wasnaethu fel ysgrifennydd y sasiwn yn 1778-97. Bu'n gefn am flynyddoedd i Fethodistiaid Sir Benfro; bugeiliodd y seiadau a ffurfiwyd gan ei dad-yng-nghyfraith; gofalai hefyd am y Tabernacl, Hwlffordd. Galwodd William Williams Pantycelyn arno i gymryd lle ei dad fel arweinydd y sasiwn, a chymerth ran flaenllaw yn niarddeliad Peter Williams.

Ei fai pennaf oedd balchter, a'i duedd oedd tra-awdurdodi ar ei frodyr. Diarddelwyd yntau, am feddwdod, yn sasiwn Castellnewydd Emlyn yn 1807. Bu farw 8 Mawrth 1831, a'i gladdu yn Henllan Amgoed. Argraffwyd ei ewyllys yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 1954, 11-13.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses*

W. Williams, *Marwnad er Coffadwriaeth am Farwolaeth y Parchedig Mr. Daniel Rowlands yr hwn a ymadawodd a'r byd Hydref 16, 1790, yn 77 mlwydd o'i oed ac a gladdwyd yn Llangeitho* (Merthyr 1828)

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, vii, 48; xi, 43-65

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907), 288

Y Brython, 1862, 32

Methodistiaeth Cymru (1851–6), i, 418, 445

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 326-8

Gomer M. Roberts, *Bywyd a Gwaith Peter Williams* (Caerdydd 1943), 87-92, 97

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, 1960, 60-6, 69-70

Gweithiau

Nathaniel Rowland, *Statement of the case between the Rev. Mr. Rowland and the Tabernacle Congregation at Haverford-west* (Haverfordwest? 1791)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751819

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu